Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Talyllychau yn Ysgol Gynradd Gymunedol Talyllychau nos Fawrth, 3 Mawrth 2020, am 7.30pm.
Roedd yr aelodau canlynol yn bresennol: Cynghorwyr. Janine Roberts (Cadeirydd), Marged Bowen, John Williams, y Cynghorydd Sir Joseph Davies a Jane Morgan (Clerc). Ymddiheuriadau. Sarah Walters, Rhys Williams, Eifion Roberts.
Ni nodwyd unrhyw Ddatganiadau o Fuddiant.
Roedd Rhys Williams ac Eifion Roberts wedi llenwi'r ffurflen i optio allan.
Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gywir.
Diolchodd Janine Roberts i Sarah Walters am gymryd y Gadair yn ei habsenoldeb yn y cyfarfod y mis diwethaf.
Materion sy'n codi.
Hysbysiad ynghylch sedd wag. Roedd Steve Haines wedi derbyn ei sedd fel Cynghorydd. Roedd angen llenwi Ffurflen Datganiad Derbyn Swydd a'i hanfon, ynghyd ag enw a chyfeiriad a'r manylion cyswllt a ffefrir, i Gyngor Sir Caerfyrddin.
Cafwyd cadarnhad gan Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru Sir Gaerfyrddin 2021 ar gyfer taliad o £300.00. Byddai tlysau yn cael eu dyfarnu i'r cystadlaethau canlynol: Parti Deusain Bl 6 ac iau. Grŵp Llefaru Bl 10 a dan 19 oed. Unawd Telyn Bl 6 ac iau.
Y ffordd rhwng y fynedfa i Fferm Bryngwyn a'r fynedfa i Fferm Abernant. Dywedodd y Cynghorydd Sir Joseph Davies fod y Cyngor Sir yn ymwybodol o'r broblem.
Ras Hwyl Talyllychau. Dywedodd y Cadeirydd fod Sarah Walters wedi siarad â David Thomas, y trefnydd, a gadarnhaodd na fyddai'r Ras Hwyl yn cael ei chynnal eleni.
Y Cinio Blynyddol. Cytunwyd y dylid cynnal y Cinio Blynyddol ddydd Gwener 24 Ebrill, 2020 yn nhafarn y College, Derwydd.
Treuliau'r Clerc. Rhoddwyd copi o'r treuliau i'r Cynghorwyr, a chafwyd trafodaeth yn eu cylch. Cytunwyd i dalu £86.67.
Gohebiaeth.
Cytunwyd ar y Balans. 24.01.2020 £4,660.80. 28.02.2020. £3,935.16.
Cytunwyd i dalu'r canlynol:
Cyflog y Clerc, J. Morgan: £152.46.
Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi £38.20.
Aelodaeth Un Llais Cymru £80.00.
Swyddfa Archwilio Cymru £220.75.
Cyngor Sir Gaerfyrddin. Llogi'r ysgol ar gyfer cyfarfodydd Ebrill 2019-Mawrth 2020 £110.00.
Dosbarthwyd a thrafodwyd yr ohebiaeth ganlynol:
Amserlen Flynyddol o Gamau Gweithredu Ariannol. Canllaw syml ar gyfer Cynghorau Cymunedol Bach i Ganolig.
Roedd cardiau/llythyrau o ddiolch wedi dod i law gan y canlynol: CFfI Llandeilo, Y Lloffwr, Clwb Cinio Talyllychau a Llansawel ac Ambiwlans Awyr Cymru.
Zurich Municipal. Diolch am y taliad a ddaeth i law a bod y polisi'n weithredol o 2 Mawrth 2020.
"Pecynnau Dechreuol" Lleoedd Lleol ar gyfer Natur. Cytunwyd y dylai'r Clerc wneud ymholiadau.
Cafwyd adroddiad ar gyfer Mast Telathrebu 4G. Cytunwyd y dylai'r Clerc holi a fyddai'n bosibl i bob Cynghorydd, gan gynnwys y Cynghorydd Sir Joseph Davies, gael copi o'r adroddiad.
Clerks & Councils Direct.

Cynllunio.

Llythyr gan Gyngor Sir Caerfyrddin ynghylch: Estyniad i'r cyfnod ymgynghori ynghylch Cynllun Datblygu Diwygiedig Adnau Sir Gaerfyrddin 2018-2033. Dylid cyflwyno sylwadau yn ysgrifenedig, gan ddefnyddio ein hoffer ymgynghori ar-lein os yn bosibl, erbyn 4.30pm ddydd Gwener 27 Mawrth 2020 fan bellaf.

Cynllunio E/40276 Tegfan, Talyllychau, Diwygiad Ansylweddol i E/39518. Ni wnaed unrhyw sylwadau.

Cais E/40306 Hysbysiad Blaenorol – Telathrebu. Gosod Mast Delltog 20M o uchder ar sylfaen goncrit, sy'n cynnwys 2 Antena a 2 Ddysgl Trawsyrru 600MM ar gyfer Rhwydwaith Gwasanaethau Brys EE. Tir i'r Gogledd o Flaenig Uchaf, Talyllychau ar gyfer EE Limited.

Cytunwyd i anfon ateb fel a ganlyn. Gwrthwynebir y cais hwn yn unfrydol am y rhesymau a ganlyn: O fewn golwg i Ardal Gadwraeth. Nid yw'n gweddu i'r ardal. Mae yna Henebion yn yr ardal. Agosrwydd at Ysgol ac eiddo preswyl, a phryder ynghylch y risg i iechyd.

Nid oedd unrhyw fusnes arall a daeth y cyfarfod i ben tua 10.10pm.

Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Fawrth 7 Ebrill 2020 am 7.30pm.